# Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | **18 Chwefror 2020** |
| **Aelod Cabinet :** | **Y Cyng. Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt** : | **Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor** |
| **Adran / Gwasanaeth** : | **Cefnogaeth Gorfforaethol** |
| **Teitl yr Eitem** | **Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2020/21** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1. Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – Adolygiad 2020/21 (y Cynllun) i'w gyflwyno i'r Cyngor ar y 5ed o Fawrth 2020.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

2.1. Mabwysiadwyd Cynllun y Cyngor 2018-23 yn wreiddiol gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar yr 8fed o Fawrth 2018. Yn flynyddol ers hynny rydym wedi bod yn adolygu ei gynnwys er mwyn sicrhau ein bod fel Cyngor yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith yn ôl anghenion pobl Gwynedd.

2.2. Mae angen i'r Cabinet yn gyntaf gymeradwyo cynnwys y Cynllun, gan gynnwys y diweddariadau sydd wedi ei wneud iddo, er mwyn argymell bod yn Cyngor Llawn yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2020.

## 3. CYFLWYNIAD

3.1. Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023 yw'n datganiad cyhoeddus ni fel Cyngor o'r hyn y fwriadwn ei gyflawni dros bobl Gwynedd. Roedd y Cynllun, yn ei flwyddyn gyntaf, yn datgan ein gweledigaeth am 5 mlynedd, ac yna mae pob adolygiad blynyddol yn cynnig diweddariad sy'n crynhoi yn fyr ble yr ydym wedi ei gyrraedd ar y siwrnai, a beth fydd ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3.2. Rydym bellach angen adolygu'r Cynllun er mwyn datgan beth y bwriadwn ei gyflawni yn ystod 2020/21, sef y drydedd flwyddyn i mewn i'r cynllun pum mlynedd. Bydd angen i'r Cabinet roi sêl bendith ar y newidiadau sydd wedi ei gwneud i'r Cynllun rhwng 2019/20 a 2020/21. Mae'r Cynllun diwygiedig newydd i'w weld yn **Atodiad 1**.

3.3. Ble mae newidiadau arwyddocaol wedi eu gwneud i gynnwys y Cynllun rydym yn cyflwyno Asesiadau Effaith Cydraddoldeb er mwyn i'r Cabinet bwyso a mesur os ydi'r newidiadau yn dderbyniol. Mae'r Asesiad cyntaf yn un sy'n edrych ar y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae'r ddau Asesiad arall yn mesur effaith dau brosiect newydd sy'n cael eu cyflwyno o'r newydd, sef 'Cydweithio Meirionnydd' a 'Sicrhau Tegwch i Bawb'. Mae'r Asesiadau hyn i'w gweld yn **Atodiad 2.**

3.4. Mae'r Cynllun wedi ei rannu'n 2 brif ran, sef y **Cynllun Cryno** a'r **Cynlluniau Adran**. Mae'r Cynllun Cryno yn nodi ein Amcanion Llesiant a'n Blaenoriaethau Gwella ar gyfer y cyfnod dan sylw, ac yn crynhoi yr holl feysydd yr ydym am roi sylw penodol iddynt er mwyn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i fywydau ein trigolion. O dan bob Blaenoriaeth Gwella ceir crynodeb o'r hyn y bwriedir ei gyflawni.

3.5. Ceir disgrifiad o waith dydd i ddydd yr Adrannau o fewn y **Cynlluniau Adran**. Yn ogystal, ceir disgrifiad manylach o'r hyn y bwriedir ei wneud er mwyn ymateb i'r blaenoriaethau gwella.

## 4. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r Cynllun:

4.2. Mae'r prosiectau yn y tabl isod wedi eu hychwanegu o'r newydd, ac felly a yw'r Cabinet yn gytûn gyda'r newidiadau hyn?

| **Prosiect** | **Adran** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd (sydd hefyd yn Flaenoriaeth Gwella newydd) | | Ymateb i flaenoriaeth y Cyngor a'r Cabinet yn dilyn cyhoeddi datganiad argyfwng hinsawdd |
| Cydweithio Meirionnydd | Addysg | Mae angen ymateb i'r sefyllfa gyfredol ym Meirionnydd ble mae angen edrych yn strategol ar ddarpariaeth addysg uwchradd |
| Sicrhau Tegwch i Bawb | Cefnogaeth Gorfforaethol | Mae'r Cynllun Cydraddoldeb newydd yn dod i rym yn 2020/21 felly mae angen prosiect i roi hwb i'r gwaith |

4.3. Un o'r prif newidiadau sy'n cael ei gynnig i'r Cynllun Cryno yw ychwanegu Blaenoriaeth Gwella o'r newydd fydd yn cyfarch dyhead y Cyngor a'r Cabinet

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

i ymateb i'r datganiad argyfwng hinsawdd. Ar ddiwedd y Cynllun Cryno fe welwch Blaenoriaeth Gwella 8, sef 'Ymateb i'r Argyfwng Newid Hinsawdd', a phrosiect 'Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd'. Nid oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei lunio ar gyfer y prosiect hwn eto gan mai nod y prosiect yn 2020/21 yw llunio cynllun gweithredu. Bydd yr Asesiad yn cael ei lunio pan fydd y prosiect yn ddigon aeddfed.

4.4. Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y ddau brosiect arall wedi eu cynnwys yn Atodiad 2.

4.5. Mi fydd y prosiectau canlynol a fu'n cyfrannu at Flaenoriaethau Gwella yn y Cynllun Cryno hyd at eleni yn trosglwyddo i fod yn rhan o waith dydd i ddydd yr adrannau yn ystod 2020/21 oherwydd nad oes angen sylw penodol ar y gwaith hwn bellach neu fod y gwaith wedi ei orffen. A yw'r Cabinet yn gytûn gyda'r newid hwn?

| **Prosiect** | **Adran** |
|---|---|
| Cryfhau'r Arweinyddiaeth | Addysg |
| Dalgylch Y Berwyn, Y Bala | Addysg |
| Strategaeth Cefnogi Teuluoedd | Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion | Economi |
| Datblygu'r Arweinyddiaeth | Cefnogaeth Gorfforaethol |

4.6 Yn ogystal, mae'r prosiectau canlynol wedi newid:

| **Prosiect** | **Adran** |
|---|---|
| **Strategaeth Iaith Uwchradd** wedi newid ei deitl i **Hybu Defnydd o'r Gymraeg ymysg Plant a Phobl Ifanc** | Addysg |

4.7 Mae gweddill y prosiectau Blaenoriaethau Gwella yn cario ymlaen o 2019/20 i 2020/21.

4.8 **Blaenoriaethau Lleol** (testun mewn blychau lliw yn y Cynlluniau Adran) yw'r blaenoriaethau a adnabuwyd gan yr holl aelodau lleol yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol ar Gynllun y Cyngor yn hydref 2017. Mae unrhyw newidiadau neu addasiadau i'r blaenoriaethau lleol ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu y bwriedir eu cynnal i'r dyfodol yn cael eu cyfarch o fewn y Cynlluniau Adran perthnasol.

4.9 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)(2015)**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae angen i gyrff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y byddant yn gwella llesiant.

4.10 Bu i ni ymgynghori gyda'r Aelodau Etholedig a'r cyhoedd ynghylch y materion sy'n effeithio ar eu llesiant fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun gwreiddiol gan hefyd ddadansoddi canlyniadau Asesiad Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn.

4.11 Bydd angen ychwanegu Rhagair yr Arweinydd i'r Cynllun fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor er eu cymeradwyaeth, ac fe wneir hynny yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Cabinet.

4.12 Bydd yr Adran 'Gwybodaeth Ariannol' hefyd yn cael ei diweddaru cyn cyflwyno'r Cynllun terfynol er cymeradwyaeth y Cyngor.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1. O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar y 5fed o Fawrth 2020.

5.2 Ar ôl i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r Cynllun, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a chopïau papur yn cael eu rhannu i'w darllen yn Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau, ac i lyfrgelloedd y sir.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Pennaeth Cyllid**

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, sy'n gosod allan yr hyn y mae Cyngor Gwynedd am anelu i'w wneud dros y dair blynedd nesaf.

Mae Cronfa Cynllun y Cyngor yn parhau, er mwyn ariannu blaenoriaethau'r Cynllun, ond mae cyfran o'r gronfa yma eisoes wedi cael ei ymrwymo. Mae tebygolrwydd y bydd gofynion adnoddau'r holl flaenoriaethau gwella sydd yn y Cynllun yn fwy na'r arian fydd ar gael iddynt, tra mae priodoldeb ariannol yn golygu y bydd rhaid sicrhau bod ffynhonnell ariannu wedi cael ei adnabod ar gyfer unrhyw ymrwymiad i wario.

Disgwyliaf y bydd y Cabinet yn parhau i ystyried pob achos busnes yn unigol cyn cytuno i'w ariannu. Byddaf yn diweddaru'r Cabinet ar sefyllfa ddiweddaraf y Gronfa ar yr achlysuron hyn.

**ii. Y Swyddog Monitro:**

O fewn Cynllun y Cyngor mae agweddau statudol sydd yn cael eu cyfarch, yn benodol felly ynglŷn ag Amcanion Gwella ( Mesur Llywodraeth Leol ( Cymru) 2009) ag Amcanion Llesiant a osodir yn unol â'r gofyn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol( Cymru ) 2015. Drwy adolygu'r Cynllun yn flynyddol mae'r Cyngor yn cyfarch y gofynion adolygu a gosod blynyddol sydd yn berthnasol i'r rhain. Rwy'n cefnogi'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb

6.2 **Barn yr Aelod Lleol**

Ddim yn fater lleol.

6.3 **Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad**

Dim i'w nodi.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023: Adolygiad 2020/21
Atodiad 2 – Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

---

**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru